Cryfhau partneriaeth gymdeithasol

Strengthening social partnership

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) – Astudiaeth achos

## Chwaraeodd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ('y Cyngor') rôl allweddol wrth lunio'r ymateb i'r pandemig.


Daeth ag aelodaeth estynedig o bartneriaid cymdeithasol at ei gilydd o'r undebau llafur, cyflogwyr datganoledig, y sector preifat a chomisiynwyr Cymru i ddeall yr heriau a berir gan COVID-19 yn well.

Trwy gydol y pandemig, cyfarfu'r Cyngor bob pythefnos ac yn ddiweddarach trefnwyd y cyfarfodydd i gyd-fynd â'r cylch adolygu tair wythnos ac weithiau, ar fyr rybudd, cynhaliwyd cyfarfodydd mewn ymateb i faterion newydd neu rai a oedd yn dod i'r fei.

Roedd yn darparu dull hanfodol ar gyfer rhannu gwybodaeth, ceisio cyngor ac i gynnwys partneriaid cymdeithasol mewn penderfyniadau wrth iddynt gael eu gwneud. Ymhlith y meysydd a drafodwyd roedd:

- canllawiau ar ailagor y sectorau manwerthu a thwristiaeth
- cefnogaeth ar gyfer busnesau
- datblygu'r rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu
- diogelwch gweithwyr
- ailagor ysgolion
- trefnu brechiadau/brechiadau atgyfnerthu COVID-19
- a'r dull gweithredu strategol wrth fynd ati i ddatblygu ymateb i adferiad ar ôl COVID-19.

Darparodd gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol gyfle i gyfnewid syniadau, gan ei gwneud yn bosibl i bartneriaid cymdeithasol chwarae rhan weithredol yn y gwaith o lunio canllawiau a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru.



OGL © Hawlfraint y Goron 2022, Llywodraeth Cymru, WG46639,
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg